

DIWYGIWYD DROS DRO AR GYFER Y PANDEMIG COVID:

Dilys tan Ebrill 2021

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) a'r offer asesu cymhwysedd ar gyfer roi Eli neu Gel Llygaid mewn lleoliadau cymunedol.

***RHAID i'r holl staff y disgwylir iddynt ddefnyddio'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol fod wedi derbyn hyfforddiant QCF lefel 2 neu uwch a derbyn asesiad i sicrhau cymhwysedd ym mhob gweithdrefn berthnasol**

Awdur a Theitl	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Fferyllfa a Rheoli Meddyginiaethau BIPBC			
Adran gyfrifol / director:	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, fferyllfa a Rheoli Meddyginiaethau Awdurdodau Lleol			
Cymeradwywyd gan:	MPPP, DTG Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Fforwm Gofal yn y Cartref a Fforwm Gofal Cymru			
Dyddiad Cymeradwyo	Tachwedd 2015/ Mehefin 2020			
Dyddiad actifadu	Tachwedd 2015			
Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon:	<ul style="list-style-type: none"> • Safonau arferion gorau a gweithdrefnau gweithredu safonol terfynol ar gyfer rheoli meddyginiaethau ar gyfer pob lleoliad gofal Ebrill 2020 • Dull Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn lleoliadau Cartrefi Gofal yng Ngogledd Cymru • Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli meddyginiaethau mewn lleoliadau cartref yng Ngogledd Cymru • Dougherty L. & Lister S. (2011) The Royal Marsden Hospital Manual of Clinical Nursing • Royal Pharmaceutical Society Professional Guidance on the Administration of Medicines in Healthcare Settings. (Ionawr 2019) • Canllawiau Cymru Gyfan ar Ddirprwyo Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HEIW 2020) • Egwyddorion Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Meddyginiaethau yn y Sector Gofal Cartref (ADSS Cymru 2019) • Hyfforddiant rhoi meddyginiaeth COVID- 19 (HEIW 2020) 			
Dyddiad adolygiad nesaf:	Ebrill 2021			
Dyddiad yr EqIA cwblhawyd:	Tachwedd 15 (Polisi Trosfwaol MM01)			
Gweithredwyd yn gyntaf	Tachwedd 2015			
Adolygwyd yn flaenorol:	Rhag 2016	Chwe 2019	Ebrill 2020	
Gwnaed newidiadau do/naddo:	Do	do	Do –COVID-19	

Dull Gweithredu Safonol i roi Eli neu Gel Llygaid

Mae'n rhaid i'r Dull Gweithredu Safonol hwn (SOP) gael ei ddefnyddio ar gyfer dinasyddion / cleifion / preswylwyr sydd â'r galluedd i gydsynio i driniaeth yn unig. Os tybir nad oes gan y dinesydd / claf / preswlydd alluedd ar adeg triniaeth, mae'n **rhaid** i'r gofalwr gyfeirio'n ôl at Feddyg Teulu / Nyrs Practis / Nyrs Ardal, tîm neu reolwr ac **ni chaiff** fynd ymlaen â'r driniaeth.

Diffiniad o gydsyniad, galluedd a gwrthod (Rhoi meddyginiaeth HEIW 2020)

Cydsyniad – mae hyn pan fo unigolyn yn rhoi ei ganiatâd i dderbyn gofal gan unigolyn arall. I gydsyniad fod yn ddilys, mae'n rhaid iddo fod o'i wirfodd, yn gytbwys ac mae'n rhaid bod gan yr unigolyn sy'n cydsynio'r galluedd i wneud penderfyniad.

Galluedd - er mwyn i unigolyn fod â'r galluedd i roi cydsyniad, mae'n rhaid iddo allu deall y wybodaeth a roddir iddo ac i ddeall y wybodaeth hon er mwyn gwneud dewis.

Gwrthod - gall unigolyn sydd â'r galluedd i wneud penderfyniad wrthod triniaeth ac mae'n rhaid parchu'r penderfyniad hwnnw

Mae'n rhaid rhoi gofal er lles pennaf y dinesydd / claf / preswlydd. Y prif reswm dros ddirprwyo yw diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr unigolyn. Mae gan bob sefydliad bolisi cydsynio ar waith a dylai fod cydymffurfiaeth ag ef (Canllawiau Cymru Gyfan ar ddirprwyo (HEIW) 2020)

Cyngor: - Os ydych yn rhoi diferion ac eli, rhowch y diferion yn gyntaf. Bydd eli'n gadael haen ar y llygad a allai rwystro amsugno meddyginiaeth ar ffurf diferion

	Gweithred	Sail resymegol
1	Esboniwch y weithred i'r preswlydd a'i thrafod gydag ef Gofynnwch i'r preswlydd esbonio sut mae ei lygad yn teimlo, os gall wneud hynny.	Er mwyn sicrhau bod y preswlydd yn deall y weithred ac yn rhoi ei gydsyniad dilys a hefyd i gael dealltwriaeth sylfaenol am y problemau diweddaraf neu'r newidiadau y mae'r Preswlydd yn eu cael ar hyn o bryd.
2	Cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth bresgripsiwn, mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal edrych ar MAR neu siart gyfatebol y preswlydd gan wirio a dilyn y weithdrefn a ddisgrifir yn Adran 7	Er mwyn atal unrhyw gamgymeriadau rhag codi.
3	Golchwch eich dwylo'n drwyadl gyda sebon a dŵr a/neu gel dwylo alcohol bacterleiddiol, a gwisgwch fenig sy'n ffitio'n dda. Sicrhewch fod y man gwaith yn lân	Er mwyn lleihau'r risg o drawsheintio
4	Gwiriwch y dyddiad dod i ben / os caiff tiwb newydd ei agor, cofnodwch y dyddiad a'r amser ar ochr y bocs Tynnwch y caead	Dim ond am 28 diwrnod ar ôl eu hagog y dylid defnyddio eli llygaid

5	Gofynnwch i'r preswlydd eistedd yn ôl gan ymestyn (gwyro) ei wddf ychydig neu i orwedd Gofynnwch i'r preswlydd edrych ar y nenfwd ac o dan y llygad dan sylw, tynnwch yr amrant isaf i lawr yn ofalus	Er mwyn sicrhau safle sy'n cynnig mynediad rhwydd i roi meddyginiaeth Mae safle cywir yn lleihau draenio meddyginiaeth y llygaid i'r ddwythell ddagrau
6	Daliwch y tiwb rhwng eich mynegfys a'ch bawd a'i roi mor agos at y llygad dan sylw â phosibl heb i fin y tiwb gyffwrdd â'r llygad. Heb gyffwrdd â'r llygad, gwasgwch lif tenau o eli neu gel mewn modd tenau ar hyd ymyl mewnol y boced a wneir gan yr amrant isaf o'r gornel drwynol tuag allan	Er mwyn sicrhau bod min tiwb yr eli'n lân ac atal trawsheintio
7	Rhyddhewch eich gfael ar yr amrant a gofynnwch i'r preswlydd amrantu'n araf ac yna i gau'r llygad am 1-2 munud	Er mwyn helpu i ddsbarthu'r feddyginiaeth
8	Os oes meddyginiaeth ormodol ar yr amrant, dylech ei sychu'n ofalus o'r gornel drwynol tuag allan	Er mwyn atal trawsheintio
9	Esboniwch i'r preswlydd y gallai ei olwg fod yn niwlog am ychydig funudau ar ôl y weithred	Er mwyn sicrhau bod y preswlydd yn deall pam mae ei olwg yn niwlog ac i beidio â gyrru na defnyddio peirianwaith hyd nes bydd ei olwg yn normal eto
10	Tynnwch fenig a'u gwaredu'n briodol. Golchwch eich dwylo'n drwyadl gyda sebon a dŵr a/neu gel dwylo alcohol bacterleiddiol,	Er mwyn lleihau'r risg o drawsheintio
11	Cofnodwch roi'r feddyginiaeth ar y MAR neu'r siartiau cyfatebol a'i nodi yng nghynllun gofal y preswlydd	Cynnal cofnodion manwl-gywir (gweler Adran 9 Cadw Cofnodion Meddyginiaeth) a darparu pwynt cyfeirio yn achos unrhyw ymholiadau ac osgoi dyblygu triniaeth

Dogfen alluedd i Weithwyr Gofal a Chynorthwyrwyr/Gweithwyr Cefnogi
Gofal Iechyd weinyddu gel neu eli llygaid yn y Gymuned
D.S. Dim ond staff a enwebir gan y rheolwr gaiff wneud y galluedd hwn.

Enw:

Dyddiad:

Llofnod:

Lleoliad:

		Wedi tystio'r arfer			Llofnod yr Aseswr a Dyddiad
		1. Dyddiad	2. Dyddiad	3. Dyddiad	
1	Rhaid i'r rheolwr ddirprwyo'r dasg hon.				
2	Egluro a thrafod y driniaeth gyda'r claf ac yn cael cydsyniad.				
3	Cyn gweinyddu unrhyw eli neu gel llygaid a ragnodir, mae'n rhaid gwirio gofnod Gweinyddu Meddyginiaeth (MAR) y claf neu siart cyfatebol am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Y claf cywir • Bod yr eli neu'r gel llygaid cywir wedi'i ddewis • Dyddiad ac amser ei roi • Dyddiad dod i ben • Alergeddau 				
4	Golchi ei ddwylo'n drwyadl gyda sebon a dŵr a/neu rwb dwylo alcohol bacterioleiddiol, a rhoi ffedog a menig sy'n ffitio'n dda ymlaen.				
5	Gwirio'r dyddiad dod i ben ar y tiwb/os yw'n diwb newydd dylid cofnodi'r dyddiad a'r amser ar y bocs Tynnu'r top/caead				
6	Helpu'r unigolyn i osod ei hun yn briodol ar gyfer ei weinyddu				
7	Dal y tiwb rhwng ei fynegfys a'i fawd a'i roi mor agos ag sy'n bosibl at y llygad sydd wedi'i effeithio heb gyffwrdd yn y llygaid. Rhaid cadw'r eli a blaen y tiwb yn lân.				
8	Gofyn i'r unigolyn edrych i fyny ar y nenfwd ac yna o dan y llygad sydd wedi'i effeithio a thynnu'r amrant isaf i lawr yn ofalus. Heb gyffwrdd yn y llygad gwasgu llif tenau o eli neu gel yn hafal ar hyd yr ochr fewnol i mewn i'r boced a wnaed gan yr amrant isaf o gornel y trwyn am allan.				
9	Gofyn i'r unigolyn amrantu'r llygad yn ysgafn ac yna cau'r llygaid am 1-2 funud ar ôl gadael fynd o'r amrant.				
10	Egluro i'r claf efallai bydd ei olwg yn aneglur am ychydig o funudau ar ôl rhoi'r eli.				

11	Tynnu menig a chael gwared ohonynt yn briodol. Golchi ei ddwylo'n drwyadl gyda sebon a dŵr a/neu rwb dwylo alcohol bacterioleiddiol				
12	Cofnodi ei fod wedi ei weinyddu ar y MAR neu siart cyfatebol a'i ddogfennu yng nghynllun gofal y claf.				

Enw yr Aseswr:.....Llofnod Aseswr:

Swydd:

Dyddiad:

Dylid rhoi copi o'r ddogfen wedi'i chwblhau i'r rheolwr i'w ffeilio yn y ffeil bersonol

How to apply eye ointment or gel

